**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1057
Ein cyf/Our ref FM -/01690/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

Annwyl Gadeirydd

12 Tachwedd 2020

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Hydref ynglŷn â deiseb i gynyddu'r nifer o bobl sy'n medru mynychu gwledd neu dderbyniad priodas.

Cyn dechrau'r 'cyfnod atal byr', a ddaeth i ben ar 9 Tachwedd, roedd y rheoliadau yn caniatáu hyd at 30 o bobl i ymgynnull ar gyfer gwledd briodas. Hwn oedd un o'r ychydig eithriadau oedd yn caniatáu pobl i ymgynnull o dan do. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd caniatáu teulu a ffrindiau i ddathlu'r digwyddiad hapus.

Yn ystod y 'cyfnod atal byr', nid oedd hawl cynnal gwledd briodas, er roedd hawl cynnal priodas neu gwasanaeth sifil cyfreithiol. Ar ôl 9 Tachwedd, gellir cynnal gwledd briodas unwaith eto ar gyfer hyd at 15 o bobl.

Pan cynhelir gwledd o dan do, rhaid iddo ddigwydd mewn mangreoedd a reolir (er enghraifft tafarndai, bwytai, gwestai neu canolfannau cymunedol) ac mae rheolau ar y math o weithgareddau y gall ddigwydd – er enghraifft, ni ddylid chwarae cerddoriaeth uchel, a dylid gweini bwyd wrth y Bwrdd yn hytrach na thrwy cinio bys a bawd. Nid yw'r reolau ar y rheiny gall fod yn bresennol yn cynnwys plant o dan 11 oed neu staff sy'n gweithio yn y digwyddiad.

Am ragor o wybodaeth, gweler ein canllawiau a gynnal digwyddiadau priodas:
https://llyw.cymru/asesiadau-risg-ar-gyfer-lleoliadau-digwyddiadau-priodas

Mae'r deisebwr yn cymharu ymgynnull ar gyfer gwledd briodas gyda chael pryd o fwyd mewn bwyty. Mae yna wahaniaeth pendant rhwng y ddau ddigwyddiad. Casgliad o bobl yn dod at ei gilydd at yr un pwrpas yw cynulliad ac mae cymysgu rhwng aelwydydd yn cynyddu'r risg o ymledu'r feirws yn sylweddol. Gall bobl fynd i fwyty am bryd o fwyd heb

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gymysgu’n gymdeithasol gydag eraill yn yr un lleoliad ac mae ein rheoliadau yn tanlinellu hyn. Pan mae pobl wedi ymgynnull i ddathlu digwyddiad hapus ac yn adnabod ei gilydd mae cymysgu yn fwy naturiol ac felly mae angen ei reoli’n ofalus.

Mae’r dystiolaeth wyddonol yn dangos bod y feirws yn lledaenu’n haws o dan do oherwydd ei fod yn medru goroesi yn yr atmosffer ac ar arwynebedd am amser hir heb olau haul uniongyrchol ac awyru digonol. Am y rheswm hynny mae cyfyngu’r nifer sy’n medru ymgynnull o dan do, hyd yn oed gyda mesurau lliniaru megis cadw pellter cymdeithasol a mesurau hylendid da, yn bwysig i leihau’r risg o drosglwyddiad ac i ddiogelu anwyliaid.

Mae yna dystiolaeth ryngwladol o wleddai  priodas yn troi’n ddigwyddiadau arch-ledaeniad. Mae’r digwyddiadau yma ar draws y byd yn tanlinellu pwysigrwydd cymryd ymagwedd ofalus a dyna pam yr ydym wedi cyfyngu'r rhif sy’n medru ymgynnull i 30.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**